# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, ddydd Mercher 30 Gorffennaf 2014 am 9.30am.

## PRESENNOL

Y Cynghorwyr J.R. Bartley (Cadeirydd), I.W. Armstrong, J. Chamberlain-Jones, W.L. Cowie, J.A. Davies, M.Ll. Davies, R.J. Davies, R.L. Feeley (sylwedydd), M. Holland (sylwedydd), C. Hughes, H. Hilditch-Roberts, T.R. Hughes, E. A. Jones, M. McCarroll, W.M. Mullen-James, R.M. Murray, P.W. Owen, D. Owens, T.M. Parry, P. Penlington, A. Roberts, D. Simmons, B.A. Smith, W.H. Tasker, J. Thompson-Hill, C.H. Williams, C.L. Williams a H.O. Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (Graham Boase), Pennaeth y Gyfraith (Gary Williams), Rheolwr Rheoli Datblygu a Chydymffurfio (Paul Mead) Prif Swyddog Cynllunio (Ian Weaver), Uwch Beiriannydd Priffyrdd (Mike Parker), Swyddog Cynllunio (Denise Shaw), Rheolwr Cynllunio Datblygu a Pholisi (Angela Loftus) Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (Sean Awbery), Uwch Swyddog Cefnogi (Judith Williams), Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd (Steve Price) a Chyfieithydd (Sandra Williams).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghr. J. A. Butterfield, S.A. Davies, P.M. Jones, J.S. Welch.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cyng. Paul Penlington gysylltiad ag eitemau 2 ac 8, Ceisiadau am Ganiatâd Datblygu.
Datganodd y Cyng. Alice Jones gysylltiad ag eitem 6 ar y rhaglen.
Datganodd y Cyng. Colin Hughes gysylltiad ag eitemau 11 a 12, Ceisiadau am Ganiatâd Datblygu.

## 3 MATERION BRYS: Nid oedd unrhyw fater brys.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD 14 MAI 2014

Cytunwyd eu bod yn gofnod cywir yn amodol ar newid y canlynol:

a) Dylai adran Ymddiheuriadau nodi’r Cyng. Ann Davies, nid y Cyng. Ann Jones
b) Siaradwr yr eitem gyntaf oedd Martin Bill, nid Bill Martin
c) Nid yw’r cofnodion yn dangos beth yw’r newidiadau sydd wedi eu gwneud i’r Protocol Ymweliadau Safle. Cytunodd Graham Boase y byddai'r protocol diwygiedig yn cael ei anfon at yr Aelodau ar ôl y cyfarfod.
d) Cafwyd eitemau amrywiol lle na chofnodwyd y ffigurau pleidleisio.

## 5 CEISIADAU AM GANIATÂD DATBLYGU

Adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a gylchredwyd ymlaen llaw) yn ymwneud â cheisiadau a gyflwynwyd sydd angen penderfyniad y Pwyllgor.

*PENDERFYNWYD:-*

*(a) Bod argymhellion y Swyddogion, fel y'u cynhwysir yn yr adroddiadau a gyflwynwyd, yn cael eu cadarnhau a bod caniatâd neu wrthodiad, yn ôl fel y bo'n digwydd, yn cael ei gyhoeddi fel y bo'n briodol dan y ddeddfwriaeth berthnasol mewn perthynas â:-*

**Eitem: 1** **Tudalen: 21**

**Cais Rhif:** 09/2014/0547/PF

**Lleoliad:** **Tŷ'r Aer Bach, Llandyrnog, Dinbych**

**Disgrifiad:** Codi ysgubor pren ar gyfer dibenion storio a chreu arwyneb concrid.

**Y drafodaeth gyffredinol:**
Dywedodd y Cyng. Mervyn Parry ei fod yn cytuno ag argymhelliad y swyddog. Roedd arno eisiau amod yn ymwneud â'r deunyddiau oherwydd yr effaith ar Fryniau Clwyd. Hefyd, gan fod yr adeilad yn cael ei ddefnyddio ar gyfer anifeiliaid, teimlodd bod angen rhywfaint o reolaeth dros elifiant. Cynigiodd y Cyng. Parry y dylid cymeradwyo'r cais ac eiliwyd hynny gan y Cyng. Huw Hildtich Roberts.

Esboniodd Ian Weaver fod yr ymgeiswyr yn bwriadu gosod cladin pren ar yr adeilad, sy'n dderbyniol yn AHNE Bryniau Clwyd, a chadarnhaodd hefyd bod disgrifiad y cais yn nodi y byddai'r adeilad yn cael ei ddefnyddio at ddibenion 'storio' yn unig, felly pe bai'r ysgubor yn cael ei ddefnyddio i gadw anifeiliaid yna byddai'r ymgeisydd yn torri amodau'r caniatâd cynllunio. Dywedodd y gellid gosod amod i gyfyngu ar y defnydd os oes modd cyfiawnhau hynny.

Roedd ar y Cyng. Mervyn Parry eisiau cadarnhad bod y sied yn mynd i gael ei ddefnyddio ar gyfer storio pethau. Cadarnhaodd Ian Weaver mai dyna'r defnydd a nodwyd.

**Cynigion:**

Cynigiodd y Cyng. Mervyn Parry y dylid CYMERADWYO'R cais yn amodol ar yr amodau a nodir yn adroddiad y swyddogion yn ogystal ag amod ychwanegol yn ymwneud ag atal defnyddio'r adeilad ar gyfer da byw. Eiliwyd hyn gan y Cyng. Huw Hilditch-Roberts.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 25
YMATAL - 0
GWRTHOD - 0

**RHODDWYD CANIATÂD GYDAG AMOD YCHWANEGOL I ATAL DEFNYDDIO'R ADEILAD AR GYFER DA BYW.**

**Cais Rhif:** 21/2014/360/PF

**Lleoliad:** **Melinau Llifio Bryn Ffynnon, Llanferres**

**Disgrifiad:** Newid defnydd rhan o adeilad amaethyddol ac iard gefn i ddefnydd busnes melin lifio, codi adeilad storfa bren sych a chadw meysydd parcio staff (cais rhannol ôl-weithredol)

Cyflwynwyd yr wybodaeth ychwanegol ganlynol i'r Pwyllgor yn y taflenni hwyr:

**SYLWADAU HWYR**
Ymgyngoreion:

**Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy**
(Sylwadau ar y manylion diwygiedig)
"Mae'r Cydbwyllgor Ymgynghorol yn nodi bod y disgrifiad a'r cynlluniau diwygiedig bellach yn cynnwys cadw'r maes parcio staff presennol sydd y tu allan i ffin y safle gwreiddiol. Mae'r Pwyllgor yn siomedig ac yn bryderus bod yr elfen yma o'r cynigion hefyd yn ôl-weithredol.

Mewn cyfarfod diweddar o'r Cydbwyllgor Ymgynghorol, mynegwyd pryderon gan rai Aelodau ynghylch maint cynyddol gweithrediadau'r safle a'r angen am gymryd gofal arbennig i sicrhau nad yw'r busnes yn fwy na chapasiti'r safle o ystyried y cyfyngiadau amgylcheddol a osodwyd gan ei leoliad o fewn yr AHNE. Yn y cyd-destun hwn, mae gan y Cydbwyllgor Ymgynghorol bryderon difrifol ynghylch ymestyn yr ardal weithredol i gynnwys y lle parcio allanol a'r lle troi cysylltiedig. Byddai'n well gan y Cydbwyllgor Ymgynghorol gynnwys yr holl weithrediadau o fewn y safle presennol. Yn ogystal, mae tirlunio arfaethedig yr ardal barcio yn cynnwys ffens bren mawr a gwrych Leylandi nad yw'n cyd-fynd â'r lleoliad gwledig. Mae'r Cydbwyllgor Ymgynghorol hefyd yn awgrymu y byddai plannu coed a gwrychoedd yn cynnwys rhywogaethau brodorol ar dir cyfagos ym mherchnogaeth yr ymgeisydd yn helpu i guddio ac ymdoddi'r safle i'r dirwedd o'i gwmpas." (Polisïau Cynllun Rheoli'r AHNE: PCP1, PCP2 a PCP4)".

**Siaradwyr Cyhoeddus:**
**Mr Mark Wilding (cymydog) - Yn erbyn**
Dywedodd Mr Wilding fod y ddau gais sy'n cael eu trafod yma heddiw yn geisiadau ôl-weithredol a'r tu allan i'r safle amaethyddol gwreiddiol. Teimlodd, fel cymydog, bod yr amwynder yn cael ei erydu o ganlyniad i dorri amodau a osodwyd yn flaenorol. Mae'r sŵn, y llwch a'r aflonyddwch yn dominyddu eu mwynhad o'u tŷ eu hunain ac mae'r effaith erbyn hyn yn bell oddi wrth y math o aflonyddwch a brofwyd pan oedd y safle yn fferm deuluol fechan. Mae llythyrau o wrthwynebiad wedi eu cyflwyno gan y tri chymydog agosaf. Dylai'r ffaith bod y safle o fewn AHNE ei gwneud yn ofynnol i geisiadau wella harddwch naturiol yr ardal. Nid yw'r cynnig yn creu digon o fudd economaidd i orbwyso'r niwed felly teimlai Mr Wilding y dylai'r cais gael ei wrthod.

**Mr Mathew Davies (ymgeisydd) – O blaid**
Eglurodd Mr Davies bod y cynigion yma ar gyfer prosiect arallgyfeirio a bod y cais gerbron y Pwyllgor yn rhan o strategaeth rheoli gwastraff ar gyfer y busnes. Mae'r cais mewn dwy ran. Mae'r rhan gyntaf yn cynnwys codi sied yn lle'r un a ddymchwelodd oherwydd eira mawr a'r ail ran yn cynnwys maes parcio ar gyfer staff. Eglurodd Mr Davies y byddai'r adeilad newydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dibenion storio ac yn helpu i weithredu fel rhwystr acwstig rhwng safle'r cais a'r cymdogion. Eglurodd hefyd y byddai'r maes parcio newydd yn cael ei guddio gyda ffensys newydd a rhywogaethau a gytunwyd arnynt gan Gydbwyllgor Ymgynghorol yr AHNE.

**Y drafodaeth gyffredinol:**
Dywedodd y Cyng. Martyn Holland (Aelod Lleol) bod hwn yn gais anodd iddo gan ei fod yn deall sylwadau'r ddwy ochr. Fodd bynnag, roedd yn teimlo y byddai'n gwneud synnwyr defnyddio'r gwastraff o'r felin lifio i gynhyrchu ynni. Dywedodd y Cyng. Holland ei fod yn ymwybodol o'r materion yn ymwneud â sŵn sydd wedi eu codi yn y gorffennol a theimlodd y byddai codi sied newydd yn helpu i liniaru rhai o'r problemau yma. Fodd bynnag, teimlodd y Cyng. Holland, os oes unrhyw waith i'w wneud yn y sied, yna fe ddylid cau'r drysau er mwyn lleihau'r amhariad. Yr unig bryder gwirioneddol sydd gan y Cyng. Holland yw'r maes parcio newydd i staff. Roedd yn teimlo ei fod wedi ei leoli'n agos iawn at yr eiddo cyfagos a'i fod yn debygol o gael effaith ar y trigolion. Awgrymwyd y dylai'r amodau gael eu cadw'n dyn er mwyn rheoli defnydd y maes parcio ac atal yr ardal rhag cael ei defnyddio at unrhyw ddiben arall ac eithrio parcio i staff.

Cefnogodd y Cyng. Huw Williams argymhelliad y Swyddog oherwydd teimlodd bod yr ymgeiswyr wedi ceisio gweithio gyda'r gymuned a'u cymdogion. Dywedodd fod yr ymgeiswyr yn darparu 12 o swyddi yn yr AHNE a bod y rhain i'w croesawu. Cynigiodd y Cyng. Williams y dylid cymeradwyo argymhelliad y swyddog, eiliwyd hyn gan y Cyng. Huw Hilditch-Roberts.

Roedd y Cyng. Mervyn Parry hefyd yn cefnogi'r cais a theimlodd y byddai edrychiad y safle yn gwella drwy godi sied newydd gan fod y dreif newydd eisoes yn welliant mawr. Teimlodd hefyd y byddai'r maes parcio newydd yn ychwanegiad da ac na fyddai'n broblem.

Eglurodd Ian Weaver (Prif Swyddog Cynllunio) y byddai'r maes parcio newydd yn oddeutu 37 metr oddi wrth y tŷ cyfagos ac y byddai'r ffens newydd a'r gwrych yn lliniaru'r effaith weledol. Derbyniodd nad oedd hyn yn ateb delfrydol ond teimlodd, dan yr amgylchiadau, nad oedd y cynigion yn cyfiawnhau gwrthod yr argymhelliad. Cytunodd y byddai rheolau llymach ar y maes parcio yn ychwanegiad rhesymol at yr amodau.

Cadarnhaodd Sean Awbery (Rheoli Llygredd) ei fod wedi monitro'r safle a bod y sŵn o fewn y lefelau sŵn a argymhellir ac, os yw'r amodau blaenorol yn cael eu cadw, nad oedd yn gweld unrhyw broblem.

Dywedodd y Cyng. Huw Hilditch-Roberts bod y safle'n edrych yn well yn ddiweddar. Gofynnodd a fu unrhyw broblem efo mwg neu aroglau, neu unrhyw dorri amodau. Cefnogodd y Cyng. Roberts y Cyng. Williams a chanmolodd yr ymgeiswyr ar eu llwyddiant. Teimlodd fod yr amodau sydd

eisoes yn yr adroddiad yn deg ac atgoffodd y Pwyllgor fod Sir Ddinbych yn "agored i fusnes".

Gofynnodd y Cyng. Meirick Lloyd Davies a oes modd cytuno ar ddefnyddio’r maes parcio ar gyfer ceir yn unig. Roedd arno hefyd eisiau gwybod a oes modd gwneud mwy i leihau sŵn ac a allai'r ymgeiswyr ystyried defnyddio deunyddiau a fyddai’n helpu i leihau effaith sŵn. Dywedodd fod y Cydbwyllgor Ymgynghorol wedi codi nifer o bwyntiau a gafodd eu hadrodd ar y daflen sylwadau hwyr ac roedd arno eisiau gwybod a allai'r rhain gael eu cymryd i ystyriaeth wrth greu amodau cryfach.

Cadarnhaodd Ian Weaver nad oes cofnod o dorri unrhyw amod o ran sŵn ac nad oes unrhyw gam gweithredu wedi ei gymryd mewn perthynas â'r mater hwn. Roedd yn teimlo y gellid gosod amod rhesymol i gyfyngu defnydd y maes parcio, ond byddai angen i rywun gynnig hyn. Roedd yn derbyn bod y Cydbwyllgor Ymgynghorol wedi mynegi pryderon ynghylch y plannu, ond y gallai hyn gael ei reoli wrth gymeradwyo’r amodau.

Teimlodd Graham Boase fod y drafodaeth ar effaith sŵn, arogl ac ati yn rhywbeth a fyddai wedi bod yn fwy perthnasol petai defnydd newydd yn cael ei gynnig. Fodd bynnag, mae'r egwyddor o ran y defnydd wedi ei dderbyn, mae’r busnes wedi ei sefydlu ac mae'r sied yn cael ei gynnig ar gyfer dibenion storio. Tynnodd sylw at y ffaith nad oedd Swyddog Rheoli Llygredd y Cyngor wedi dod o hyd i achos o dorri amodau o fewn y gweithrediad presennol. Teimlodd Mr Boase y gellir diwygio Amod 6 i atal cerbydau nwyddau trwm rhag defnyddio’r maes parcio.

Nid oedd ar y Cyng. Martyn Holland eisiau gweld gormod o amodau ond nid oedd ychwaith eisiau gweld cerbydau nwyddau trwm yn defnyddio'r maes parcio dros nos gerllaw eiddo cyfagos.

**Cynigion:**
Cynigiodd y Cyng. Huw Williams y dylid CYMERADWYO’R cais yn amodol ar ddiwygio Amod 6 i wahardd defnyddio'r maes parcio ar gyfer cerbydau nwyddau trwm. Eiliwyd hyn gan y Cyng. Huw Hilditch-Roberts

**PLEIDLAIS:**
**Ar roi’r cais i’r bleidlais:**
**Cymeradwyo - 22**
**Ymatal - 0**
**Gwrthod - 0**

**FELLY RHODDWYD CANIATÂD**

**Eitem: 3** **Tudalen: 37**

**Cais Rhif:** 21/2014/0427/PF

**Lleoliad:** **Melinau Llifio Bryn Ffynnon, Llanferres, yr Wyddgrug**

**Disgrifiad:** (i) Gosod 2 foeler biomas i wasanaethu busnes melin lifio bresennol ac annedd (ii) Codi adeilad storfa bren sych

**Siaradwyr Cyhoeddus:**

**Mr Peter Jelley (cymydog) - Yn erbyn**
Dywedodd Mr Jelley ei fod yn siarad ar ran ei deulu a dau gymydog arall sy'n byw’n agos at y felin lifio. Esboniodd Mr Jelley bod boeler biomas eisoes wedi ei osod ar y safle tua 9 mis yn ôl heb ganiatâd ynghyd â strwythurau ac offer eraill. Dywedodd bod y boeleri yn allyrru mwg 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Mae'r cymdogion wedi dioddef o lwch, mwg ac arogl drwg byth ers hynny gan nad yw'r ymgeisydd yn defnyddio'r tanwydd cywir. Mae hyn wedi golygu nad yw’r teulu, ar adegau, wedi gallu defnyddio eu gardd. Roedd yn teimlo y dylai’r math hwn o fusnes gael ei weithredu mewn parc busnes, nid mewn parc gwledig a bod y cais hwn yn berygl iechyd difrifol i'r cymdogion cyfagos. Felly, roedd yn argymell yn gryf bod yr Aelodau'n gwrthod y cais.

**Mr Mathew Davies (ymgeisydd) – O blaid**
Eglurodd Mr Davies fod y felin lifio yn cynhyrchu pren gwastraff ac yn unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ddinbych penderfynwyd gweithredu strategaeth rheoli gwastraff a lleihau eu hôl troed carbon. Yn 2013 gosodwyd 2 foler yn y felin lifio gan gwmni cyfrifol. Ers gosod y boeleri hyn nid yw’r ymgeiswyr wedi defnyddio unrhyw olew ar gyfer gwresogi. Mae'r cais gerbron yr Aelodau heddiw yn gofyn am ganiatâd i symud y boeleri oherwydd y problemau a brofir gan gymdogion yn sgil y mwg. Mae'r gosodiadau wedi eu pasio gan y gosodwyr ac adran llygredd Cyngor Sir Ddinbych. Dim ond pren sych newydd sy’n cael ei ddefnyddio yn y boeleri, gan fod yr holl ddeunydd gwastraff arall yn cael ei gludo oddi ar y safle. Bydd y boeleri yn cael eu cuddio gan goed o rywogaeth a argymhellir gan y Cydbwyllgor Ymgynghorol.

**Y drafodaeth gyffredinol:**
Eglurodd Ian Weaver y cais hwn drwy ddweud nad yw’r cais yn gofyn am osod boeleri newydd ond, yn hytrach, yn gofyn am symud y boeleri i leoliad arall sy’n bellach oddi wrth eiddo cyfagos. Tynnodd sylw at y cynllun a oedd yn dangos lleoliad y boeleri a'r storfa bren sych.

Dywedodd y Cyng. Holland (Aelod Lleol) nad oedd yn arbenigwr ar foeleri biomas ond, mewn egwyddor, maent yn swnio fel opsiwn da. Eglurodd bod cwynion wedi dod i law gan y cymdogion a chydnabu’r ffaith, oherwydd y tywydd diweddar, bod hyn wedi cael mwy o effaith oherwydd bod pobl yn treulio mwy o amser y tu allan. Roedd y cwmni boeleri wedi cynghori'r ymgeisydd nad oedd angen caniatâd cynllunio arno. Roedd yn meddwl tybed a ddylai’r Cyngor ysgrifennu at gorff cenedlaethol i esbonio iddynt fod angen caniatâd cynllunio.

Cynigiodd y Cyng. Huw Williams y dylid cymeradwyo’r cais. Eiliwyd hyn gan y Cyng. Rhys Hughes.

Roedd y Cyng. Mervyn Parry wedi ymweld â'r safle a dywedodd, er nad yw'n gwybod llawer am foeleri biomas, nad oeddent yn swnllyd ac mai dim ond tician y maent. Weithiau gellir gwneud camgymeriadau wrth ddysgu sut i ddefnyddio'r boeleri hyn. Gan eu bod yn bwriadu symud y boeleri yn agosach at eu tŷ eu hunain, teimlodd mai'r ymgeisydd yn hytrach na'r cymdogion fyddai'n dioddef fwyaf os oes unrhyw broblem.

Esboniodd Ian Weaver fod y boeleri yn cael eu defnyddio i gynhesu dŵr ac os defnyddir nhw'n gywir yna ni ddylent greu problemau. Fodd bynnag, nid oes unrhyw sicrwydd na fyddai mwg yn cael ei greu ond, y cwestiwn yw, a yw hyn yn ddigon i achosi problem. Mae llawer o waith wedi ei wneud i sicrhau'r effaith leiaf yn y lleoliad newydd.

Eglurodd Sean Awbery (Rheoli Llygredd) ei fod wedi monitro'r safle hwn a'i fod yn cefnogi'r cais i symud y boeleri yn bellach oddi wrth eiddo cyfagos. Nid oedd wedi bod yn dyst i unrhyw niwsans statudol yn sgil y boeleri presennol.

Cadarnhaodd Ian Weaver bod nifer o gwmnïau yn rhoi'r cyngor anghywir ond y cwbl y gall y Cyngor ei wneud yw dweud wrth bobl am ofyn am gyngor gan yr Adran Gynllunio cyn iddynt fwrw ymlaen â phrosiectau. Fodd bynnag, mae'r cais hwn wedi ei gyflwyno i geisio rheoleiddio'r sefyllfa a gallem ond delio gyda'r cais gerbron y Pwyllgor.

Datganodd y Cyng. Penlington gysylltiad gan mai ewythr ei wraig yw'r pensaer.

Roedd y Cyng. Huw Hilditch-Roberts braidd yn ddryslyd. Clywodd y siaradwr cyntaf yn dweud pa mor ddrwg oedd y mwg, dywedodd y Swyddog Llygredd nad oedd unrhyw niwsans statudol a bod yr ymgeisydd yn gofyn am ganiatâd i symud y boeleri yn bellach oddi wrth y safle presennol. Dywedodd pe bai Aelodau yn gwrthod y cais hwn yna byddai'r sefyllfa anfoddhaol bresennol yn parhau.

Esboniodd y Cyng. Meirick Lloyd Davies fod y siaradwr wedi crybwyll ffotograffau o fwg yn dod allan o'r boeleri mor bell i ffwrdd â Moel Famau ac roedd arno eisiau gwybod os oedd y swyddogion wedi gweld lluniau hyn.

Esboniodd Ian Weaver ei fod yn deall pam fod y gwrthwynebwyr yn gwrthwynebu ond teimlodd ei fod yn well cymeradwyo'r boeleri a rheoli'r gwaith yn hytrach na gwrthod a gadael pethau fel y maent.

Cydnabu Sean Awbery y byddai'r boeleri yn gollwng mwg ar adegau ond, cyhyd â nad ydynt yn achosi niwsans statudol, y byddai'n hapus i'w cefnogi.

Eglurodd Graham Boase fod y boeleri hyn ar gael yn fasnachol ac os ydynt yn cael eu gosod a'u defnyddio'n gywir ni ddylent achosi problem, a theimlodd bod y cais hwn yn welliant ar y sefyllfa bresennol.

Roedd y Cyng. Martyn Holland yn fodlon cefnogi'r cais gan ei fod yn gwneud synnwyr i ddefnyddio'r deunyddiau gwastraff. Yr oedd hefyd yn fodlon rhoi amod yn ei le os oes niwsans statudol yn y dyfodol.

**Cynigion:**

Cynigiodd y Cyng. Huw Williams y dylid cymeradwyo’r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog. Eiliwyd hyn gan y Cyng. Rhys Hughes.

**PLEIDLAIS:**
**CYMERADWYO - 24**
**YMATAL - 1**
**GWRTHOD - 0**

**Felly, RHODDWYD caniatâd yn amodol ar yr amodau a nodwyd yn adroddiad y Swyddogion.**

**Eitem: 4** **Tudalen: 49**

**Cais Rhif:** 23/2014/0375/PO

**Lleoliad:** **Tir ger Llys Gwilym, Llanrhaeadr, Dinbych**

**Disgrifiad:** Datblygu 0.53 hectar o dir drwy godi 15 annedd breswyl a chreu mynediad newydd i gerbydau (cais amlinellol yn cynnwys mynediad a chynllun)

**Y drafodaeth gyffredinol:**
Siaradodd y Cyng. Richard Davies ar ran y Cyng. Joe Welch yn ei absenoldeb. Roedd yn cefnogi'r Cyngor Cymuned ac roedd o'r farn y dylid rhoi caniatâd cynllunio gyda'r amodau a nodwyd yn adroddiad y swyddogion.

Cynigiodd y Cyng. Rhys Hughes yr argymhelliad ac eiliwyd hynny gan y Cyng. Mervyn Parry.

Cwestiynodd y Cyng. Meirick Lloyd Davies y datganiad gan y datblygwyr sy'n sôn y byddant o bosibl yn ychwanegu at nifer y bobl ddi-Gymraeg yn y datblygiad ond na fyddai hynny'n gynnydd sylweddol. Roedd arno eisiau gwybod sut cafwyd y ffigyrau hynny a sut bu iddynt ddod i'r casgliad hwnnw.

Gofynnodd y Cyng. Colin Hughes sut fyddai'r elfen tai fforddiadwy yn cael ei chyfrifo ar gyfer datblygiad o'r fath.

Gofynnodd y Cyng. Bill Cowie a yw'r Swyddogion Priffyrdd yn rhagweld unrhyw broblem wrth weithredu'r cyfyngiadau cyflymder newydd a grybwyllwyd yn adroddiad y swyddog.

Pwysleisiodd Graham Boase fod y Canllawiau Cynllunio Atodol a fabwysiadwyd yn glir iawn ar dai fforddiadwy ac argymhellodd bod yr Aelodau yn darllen y rhain yn drylwyr cyn ymdrin â materion ar dai fforddiadwy gan fod y canrannau wedi eu hegluro'n glir yn y canllawiau.

Eglurodd Ian Weaver, os oes 10 neu fwy o anheddau yna mae'n amlwg y gellir darparu 1 uned. Fodd bynnag, os oes 5 annedd ar ben hynny, yna byddai taliad swm cymudol yn ddyledus ar gyfer y gyfran honno. Mae'r Adran Briffyrdd yn fodlon y gallai'r arwydd cyflymder gael ei symud os bydd y cais yn cael ei ganiatáu. I ateb cwestiwn y Cyng. Meirick Lloyd Davies ynglŷn â'r iaith Gymraeg, esboniodd Ian bod yr hyn yr oedd wedi ei ddyfynnu yn rhan o gais yr ymgeiswyr ac nad oedd wedi gweld unrhyw ddogfen sy'n cynnwys ffigyrau ar ba ganran o newid sy'n gwneud cais yn dderbyniol neu'n annerbyniol o ran ei effaith ar yr iaith a'r diwylliant. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol eisoes wedi mynd trwy asesiad iaith Gymraeg ac mae hwn yn un o'r safleoedd a ddyrannwyd yn y cynllun a gymeradwywyd.

**Cynigion:**
Cynigiodd y Cyng. Rhys Hughes y dylid RHOI caniatâd cynllunio. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Mervyn Parry.

**PLEIDLAIS:**

CYMERADWYO - 23
YMATAL - 1
GWRTHOD - 1

**Felly, RHODDWYD caniatâd yn amodol ar yr amodau a nodwyd yn adroddiad y Swyddogion.**

**Eitem: 5** **Tudalen: 63**

**Cais Rhif:** 25/2014/0337/PFT

**Lleoliad:** **Hafoty Ddu, Saron, Dinbych**

**Disgrifiad:** Codi tyrbin gwynt echel llorweddol 55 metr o uchder ac 850kW gyda thri llafn 26 metr, trac mynediad cysylltiedig ac adeilad is-orsaf

**Siaradwr Cyhoeddus:**
**Mr Richard Welch (Yn erbyn)**
Roedd swyddogion wedi mynegi pryder cychwynnol ynghylch effaith weledol a sŵn. Eglurodd bod y Pwyllgor wedi gwrthod cais ar gyfer fferm wynt Gorsedd Bran yn 2008 a bod nifer o apeliadau wedi eu cyflwyno a oedd yn cynnwys casgliadau bod y trigolion wedi cael digon.Er bod yr apeliadau yn ymwneud â chynnig llawer mwy, dywedodd Mr Welch bod yna hefyd safle cymeradwy arall am 16 o dyrbinau yn Mrenig.

Er bod y cais presennol wedi ei gyfiawnhau yn wreiddiol fel 'arallgyfeirio fferm’, dywedodd Mr Welch bod y Swyddog wedi anghytuno â hyn gan deimlo y dylid ei ystyried yn fenter fasnachol.

Dywedodd Mr Welch hefyd bod yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn erbyn y cais gan bobl leol a bod y rhan fwyaf o'r rheini sy’n cefnogi cais yn byw y tu allan i’r ardal. Mae’r Cyngor Cymuned yn gwrthwynebu’r cynnig.

Roedd arno eisiau gwybod beth sydd wedi newid ers i ymgynghorydd tirlun y Cyngor ddisgrifio'r ardal fel ardal hynod sensitif a theimlodd y gallai caniatáu'r cais hwn osod rhagesiampl ac y gallai mwy o dyrbinau gael eu codi ar hyd y grib.

Teimlodd Mr Welch nad oedd y fenter fasnachol yn gorbwyso'r effaith ar y trigolion lleol ac anogodd y Pwyllgor i wrthod y cais.

**Mr Rheinallt Williams (o blaid)**
Teimlodd Mr Williams nad oedd y farn a fynegwyd gan y Cynghorau Cymuned yn eu gwrthwynebiad yn adlewyrchu barn y rhan fwyaf o'r gymuned. Petai’r gwrthwynebwyr yn darllen y Datganiad Amgylcheddol a gyflwynwyd fel rhan o'r cais, byddent yn gweld bod eu pryderon yn cael sylw.

Teimlodd Mr Williams bod y dirywiad yn yr iaith Gymraeg yn ganlyniad i ddiffyg cyfleoedd i bobl leol a theimlodd y byddai ceisiadau o'r fath yn diogelu cyflogaeth leol.

Eglurodd Mr Williams fod y Swyddog wedi rhoi darlun teg a chytbwys o'r cynnig a dywedodd y bydd y prosiect yn creu digon o ynni i fodloni gofynion mwy na 300 o dai yn yr ardal leol.

**Y drafodaeth gyffredinol:**
Roedd y Cyng. Huw Williams yn cefnogi argymhelliad y swyddog ac felly cynigiodd y dylid cymeradwyo’r cais. Eiliwyd hyn gan y Cyng. Richard Davies.

Dywedodd y Cyng. Meirick Lloyd Davies ei fod yn ymwybodol o fferm wynt Tir Mostyn a gofynnodd am eglurhad ynghylch lleoliad y tyrbin newydd.

Roedd y Cyng. Mervyn Parry yn cefnogi'r cais a dywedodd bod ceisiadau tyrbinau gwynt bob amser yn codi materion sensitif. Teimlodd fod swyddogion wedi gwneud gwaith manwl ar y cais ac felly roedd yn teimlo'n gyfforddus i gefnogi argymhelliad y swyddog.

Dywedodd y Cyng. Colin Hughes ei fod wedi cefnogi prosiectau arallgyfeirio amaethyddol yn y gorffennol ond roedd arno eisiau gwybod pa dargedau'r Llywodraeth sy’n bodoli ar gyfer cynhyrchu ynni gwynt.

Dangosodd Denise Shaw (Swyddog Cynllunio) lle'r oedd y tyrbin gwynt yn mynd i gael ei osod. O ran targedau tyrbinau gwynt, mae’r rhain yn cael eu pennu gan lywodraeth y Deyrnas Unedig a thrwy bolisïau Llywodraeth Cymru ac yn cael eu mynegi mewn oriau gigawat.

Gofynnodd y Cyng. Dewi Owen a oes Adran 106 yn gysylltiedig â'r cynnig hwn.

Eglurodd Denise Shaw nad oedd yn ystyriaeth gynllunio berthnasol i sicrhau budd cymunedol trwy Adran 106 ond bod y rhain weithiau yn cael eu cynnig fel rhan o geisiadau tyrbinau gwynt mawr.

**Cynigion:**

Cynigiodd y Cyng. Huw Williams y dylid CYMERADWYO’R cais yn amodol ar yr amodau a nodwyd yn adroddiad y Swyddogion. Eiliwyd hyn gan y Cyng. Richard Davies.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 19
YMATAL - 0
GWRTHOD - 6

**FELLY RHODDWYD CANIATÂD**

**Eitem: 6** **Tudalen: 87**

**Cais Rhif:** 43/2014/262/PF

**Lleoliad:** **Ysgol Uwchradd Prestatyn, 2 Princes Avenue, Prestatyn**

**Disgrifiad:** Codi estyniad ar oledd i'r canopi a gosod decin/llwyfan gyda seddau pren ar y glaswellt i greu ardal/awditoriwm perfformio awyr agored a chodi ffens rwyllau 2 metr o uchder o amgylch.

Cyflwynwyd yr wybodaeth ychwanegol ganlynol yn y taflenni hwyr:

**SYLWADAU HWYR**

**Unigolion preifat**

Gan:

Mrs Merriel Jones, 88 Meliden Road, Prestatyn, Sir Ddinbych

- Crynodeb o'r sylwadau
  Yn dilyn cyfarfod ar y safle a derbyn sicrwydd y bydd Iechyd yr Amgylchedd yn monitro’r lefelau sŵn, mae’r unigolyn yn dymuno tynnu ei wrthwynebiad yn ôl.

Phil Pierce, Pennaeth Ysgol Uwchradd Prestatyn

- Crynodeb o'r sylwadau:
  Bydd y cynnig yn cefnogi cyflwyno’r celfyddydau creadigol yn ogystal â chreu man cwrdd ychwanegol ar gyfer gweithgareddau fel gwasanaethau. Mae’n fodlon cynnwys cyfyngiadau cynllunio i leihau'r effaith ar gymdogion.

**Y drafodaeth gyffredinol:**

Dywedodd y Cyng. Julian Thompson-Hill fod y cais hwn yn ceisio rheoleiddio gweithgareddau presennol sy'n digwydd ar sail fwy anffurfiol. Byddai ei roi mewn strwythur mwy ffurfiol yn helpu i leddfu problemau sy'n cael eu profi ar hyn o bryd. Wrth reswm, mi fydd yna rywfaint o sŵn; fodd bynnag, mae'r amodau yn ceisio lliniaru’r effaith honno. Cynigiodd y Cyng. Julian Thompson-Hill argymhelliad y Swyddog. Eiliwyd hynny gan y Cyng. Bob Murray.

Gofynnodd y Cyng. Meirick Lloyd Davies a ellid pennu lefel dderbyniol o sŵn gan ei fod yn teimlo y byddai’n rhaid i Swyddogion fod yn bresennol i fonitro’r sefyllfa.

Roedd gan y Cyng. Win Mullen-James bryderon ynghylch agosrwydd y datblygiad at gymdogion a dywedodd y byddai'r strwythur newydd hefyd yn cael ei ddefnyddio yn ystod y dydd fel ystafell ddosbarth ychwanegol, yn ogystal ag ar gyfer gweithgareddau gyda'r nos. Teimlwyd y gallai hyn greu sŵn drwy'r dydd.

Mae’r Cyng. Penlington yn byw’n agos iawn at y safle hwn a chadarnhaodd mai’r unig adeg y mae hyn yn achosi problem yw ar ddiwrnod chwaraeon a bod yr ardal hon eisoes yn cael ei defnyddio gan ddisgyblion drwy'r dydd, felly

teimlodd na fyddai'r cynnig hwn yn gwaethygu pethau, dim ond ffurfioli’r hyn sydd eisoes ar y safle.

**Cadarnhaodd Paul Mead (Rheolwr Datblygu) bod yr ardal yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd a bod yr ysgol yn ysgol Cyngor Sir Ddinbych.** Nid oes angen gosod gormod o amodau ac fe ddylai'r Cyngor ymdrechu i weithio gyda chymdogion i sicrhau perthynas cytûn.

Holodd y Cyng. Meirick Lloyd Davies a oedd modd i’r Cyngor orfodi amodau yn erbyn yr ysgol. Cadarnhaodd Gary Williams y Swyddog Cyfreithiol nad yw’n arfer mabwysiedig i’r Cyngor gymryd camau gorfodi yn erbyn ei hun a theimlodd bod digon o reolaethau y gallai'r cyhoedd ddibynnu arnynt os oes unrhyw broblem.

**Cynigion:**

Cynigiodd y Cyng. Julian Thompson-Hill argymhelliad y Swyddog i ROI caniatâd cynllunio. Eiliwyd hyn gan y Cyng. Bob Murray.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 21
YMATAL - 0
GWRTHOD - 3

**FELLY RHODDWYD CANIATÂD**

**Eitem: 7** **Tudalen: 95**

**Cais Rhif:** 43/2014/0609/PF

**Lleoliad:** **79 Stryd Fawr, Prestatyn**

**Disgrifiad:** **Newid defnydd y llawr 1af a'r 2il lawr i ddarparu 3 fflat un ystafell wely hunangynhwysol a grisiau mynediad allanol**

**Siaradwr Cyhoeddus:**
**Mr Goodwin (o blaid)**
Mae'r cynnig yn ceisio dod â’r lloriau uwchben uned adwerthu ar y Stryd Fawr yn ôl i ddefnydd. Mae Polisi BSC7 yn cefnogi troi eiddo yn fflatiau hunangynhwysol ac mae hyn yn arbennig o berthnasol mewn ardaloedd canol tref.

Eglurodd Mr Goodwin mai dim ond un preswylydd lleol sydd wedi gwrthwynebu'r cynnig a hynny oherwydd mynediad gwael i gerddwyr sydd wedi ei ddatrys yn ddigonol o fewn y cais.

Tynnwyd sylw at adroddiad y Swyddog a oedd yn nodi angen am fannau agored a thai fforddiadwy. Cydnabu Mr Goodwin yr angen am fan agored, ond cwestiynodd yr angen am dai fforddiadwy gan fod y cynnig yn ceisio darparu 3 fflat a fyddai’n fforddiadwy oherwydd y byddan nhw’n is na'r trothwy ar gyfer lefelau incwm lleol.

**Y drafodaeth gyffredinol:**
Cyflwynodd Paul Mead yr eitem a chydnabu fod yna deimlad cyffredinol ymhlith Aelodau ynghylch y ddarpariaeth o fflatiau yn y sir ac ychydig o ofn bod fflatiau yn achosi problemau oherwydd y math o breswylwyr y maent yn denu a’r anawsterau y gallai hyn eu creu mewn rhai ardaloedd. Fodd bynnag, yn y lleoliad dan sylw, cyn belled â bod y fflatiau yn bodloni'r safonau gofod o fewn y CCA, teimlodd eu bod yn dderbyniol. Mae'r gofyniad ar gyfer cymysgedd o dai yn golygu bod fflatiau fel y rhain yn dderbyniol. Er bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi mae gofyn bod lloriau uchaf unedau adwerthu yn cael eu defnyddio yn hytrach na chael eu gadael yn wag. Esboniodd Mr Mead bod angen darparu tai fforddiadwy fel rhan o'r argymhelliad i ganiatáu datblygiad. Yn anffodus, nid oedd yr wybodaeth yn ymwneud â gwerth y fflatiau arfaethedig wedi ei chynnwys fel rhan o'r cais ac felly nid oedd modd gwybod a oedd yr unedau hyn yn fforddiadwy ai peidio. Gellir ymdrin â hyn nes ymlaen pan rydym yn cymeradwyo unrhyw amod.

Dywedodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill bod y Cyngor Tref wedi gwrthwynebu'r cynnig hwn ac yn cydnabod bod y cynnig rŵan yn nodi llai o unedau er mwyn cwrdd â'r safonau gofod cyfredol. Fodd bynnag, dim ond un rhan o'r gwrthwynebiad oedd hynny. Teimlodd y byddai'r grisiau allanol yn broblem ac nad yw’r cais yn bodloni’r gofynion amwynder yn ddigonol mewn lleoliad yng nghanol y dref. Os yw Aelodau yn cymeradwyo’r cais, yna byddai'n hoffi gweld amod ychwanegol ar y deunyddiau i orchuddio’r grisiau allanol. Cynigiodd y dylid gwrthod y cais. Eiliwyd hyn gan y Cyng. Bob Murray.

Gofynnodd y Cyng. Meirick Lloyd Davies a oes man wedi ei neilltuo ar gyfer sychu dillad a chadw biniau. Gofynnodd hefyd a fyddai to yn cael ei osod ar y grisiau allanol presennol.

Cytunodd y Cyng. Bob Murray â barn yr Aelodau eraill a dywedodd y gallai hyn fod yn rhagesiampl ar gyfer fflatiau un ystafell wely o fewn y sir ac felly ni allai gefnogi'r cais.

Dywedodd y Cyng. Rhys Hughes bod y Cyngor Tref wedi gwrthwynebu oherwydd diffyg man parcio ceir ond holodd a oes meysydd parcio o gwmpas yr ardal gan fod llawer o lefydd o amgylch y sir heb lefydd parcio.

Aeth Paul Mead drwy rai o'r pwyntiau a godwyd. Nid oedd yn teimlo y byddai problem gyda'r amod ychwanegol yn ymwneud â'r grisiau a dywedodd fod y grisiau wedi bod yno ers sawl blwyddyn a'u bod yn ddihangfa dân yn wreiddiol. Teimlodd Mr Mead na fyddai'r grisiau allanol yn niweidio unrhyw amwynder preswyl gan fod yr eiddo yn bennaf yn cefnu ar ardal fasnachol. Eglurodd hefyd fod yna faes parcio mawr gerllaw a rhai meysydd parcio oddi ar y stryd.

Dywedodd y Cyng. Penlington bod yr holl feysydd parcio ym Mhrestatyn yn rhai talu ac arddangos.

Gofynnodd Graham Boase i’r Cyng. Julian Thompson-Hill ddarparu rhywfaint o eglurhad ynghylch y rhesymau dros wrthod y cais os oes pleidlais i fod ar ei gynnig ef.

Dywedodd y Cyng. Julian Thompson-Hill mai’r rheswm dros wrthod yw'r effaith annerbyniol ar amwynder oherwydd y grisiau allanol.

Cynigiodd y Cyng. Rhys Hughes y dylid caniatáu’r datblygiad. Eiliwyd hynny gan y Cyng. Huw Hilditch-Roberts.

**Cynigion:**

Cynigiodd y Cyng. Julian Thompson-Hill y dylid GWRTHOD y cais oherwydd nad yw’r grisiau allanol yn darparu amwynder preswyl digonol. Eiliwyd hyn gan y Cyng. Bob Murray.

Cynigiodd y Cyng. Rhys Hughes y dylid CYMERADWYO’R cais yn amodol ar yr amodau yn adroddiad y swyddogion ac amodau ychwanegol o ran y deunyddiau ar gyfer y grisiau allanol a'r ardal bin/sychu dillad. Eiliwyd hyn gan y Cyng. Huw Hilditch-Roberts.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 13
YMATAL -1
GWRTHOD - 11

**RHODDWYD CANIATÂD GYDAG AMODAU YCHWANEGOL YN YMWNEUD Â’R GRISIAU ALLANOL A’R ARDAL CADW BINIAU/SYCHU DILLAD.**

**Eitem: 8** **Tudalen: 105**

**Cais Rhif:** 43/2014/0664/PF

**Lleoliad:** **Ysgol Iau Bodnant, Ffordd Nant Hall, Prestatyn**

**Disgrifiad:** **Codi estyniadau ac ailfodelu'r ysgol, creu mynediad newydd i gerbydau, parcio, mannau chwarae caled, tirlunio a gwaith cysylltiedig**

**Y drafodaeth gyffredinol:**
Teimlodd y Cyng. Julian Thompson-Hill fod y problemau gyda'r cais hwn yn ymwneud â chludiant, parcio a'r effaith ar ardaloedd preswyl cyfagos. Cafwyd cryn dipyn o ymgynghori mewn perthynas â'r cais hwn a llawer o addasiadau. Teimlodd mai hwn yw'r cais gorau y gellid gobeithio amdano o ystyried yr amgylchiadau ac felly cynigiodd bod y cais yn cael ei ganiatáu. Eiliwyd hyn gan y Cyng. Peter Owen.

**Cynigion:**

Cynigiodd y Cyng. Julian Thompson-Hill argymhelliad y Swyddog i ROI caniatâd cynllunio. Eiliwyd hyn gan y Cyng. Peter Owen.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 24
YMATAL - 1
GWRTHOD - 0

**FELLY RHODDWYD CANIATÂD**

**Eitem: 9** **Tudalen: 117**

**Cais Rhif:** 45/2014/0037/PS

**Lleoliad:** **Yr Hen Ganolfan Adnoddau Plant, Ysgol Plas Cefndy, South Meadow, Ffordd Cefndy, Y Rhyl**

**Disgrifiad:** Amrywio amod rhif 1 y cais gwreiddiol/cymeradwyaeth 45/2008/0601 i ymestyn y defnydd a ganiateir am 5 mlynedd arall

**Y drafodaeth gyffredinol:**
Ni chafwyd unrhyw drafodaeth ar yr eitem hon.

**Cynigion:**

Cynigiodd y Cyng. Jeanette Chamberlain-Jones argymhelliad y Swyddog i ROI caniatâd. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Cheryl Williams.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 25
YMATAL - 0
GWRTHOD - 0

**FELLY RHODDWYD CANIATÂD**

**Eitem: 10** **Tudalen: 125**

**Cais Rhif:** 45/2014/0042/PF

**Lleoliad:** **Tir yn Ystâd Fasnachol Cefndy, Ffordd Derwen, y Rhyl**

**Disgrifiad:** Codi 24 annedd gan gynnwys 22 o dai fforddiadwy, mynediad, parcio, mannau agored a thirlunio

Cyflwynwyd yr wybodaeth ychwanegol ganlynol yn y taflenni hwyr:

**SYLWADAU HWYR**
Ymgyngoreion:

Cyngor Tref y Rhyl
“Gwrthwynebu ar sail gormod o dai cymdeithasol yn unol â Pholisi BSC 4 o'r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd -
*“... er budd creu a chynnal cymunedau cymysg cynaliadwy, bydd cynigion ar gyfer 100% o dai fforddiadwy yn cael eu hystyried ar gyfer safleoedd gyda 10 uned neu lai."*

Dŵr Cymru
Dim sylwadau.

**Y drafodaeth gyffredinol:**
Croesawodd y Cyng. Margaret McCarroll y cais hwn gan ei fod yn creu tai fforddiadwy a chyflogaeth sydd wir eu hangen yn yr ardal. Cynigiodd y Cyng. McCarroll argymhelliad y Swyddog. Eiliwyd y cynnig hwn gan y Cyng. Jeanette Chamberlain-Jones.

Dywedodd y Cyng. Meirick Lloyd Davies bod y cais hwn yn golygu colli tir cyflogaeth a holodd pam bod y cais yma’n wahanol i’r cais a gafodd ei wrthod am resymau tebyg yn y Rhyl.

Dywedodd y Cyng. Win Mullen-James fod y tir hwn yn mewn parth llifogydd ac roedd arni eisiau sicrwydd bod y mater yma wedi ei ddatrys.

Dywedodd y Cyng. Jeanette Chamberlain-Jones fod y cynnig hwn yn cysylltu â thai presennol cyn cyrraedd y parc diwydiannol, sy’n rhoi dilyniant naturiol yn hytrach na chreu rhan o'r parc diwydiannol. Mae cymdogion presennol y safle yn croesawu'r datblygiad tai hwn ac mae’n well ganddynt weld tai yn hytrach na pharc diwydiannol wrth eu hymyl.

Nododd Paul Mead y sylwadau o gefnogaeth gan yr Aelodau. Cadarnhaodd bod y safle hwn yn cael ei ddyrannu ar gyfer cyflogaeth yn y Cynllun Datblygu Unedol a bod hyn wedi ei ddwyn ymlaen i'r Cynllun Datblygu Lleol. Fodd bynnag, bu apêl cynllunio ar y safle gwreiddiol, a oedd yn fwy, yn dilyn gwrthod y cais oherwydd bod y gymhareb tai a chyflogaeth yn annerbyniol. Teimlodd yr arolygydd apêl fod hyfywedd economaidd y safle yn golygu na fyddai defnydd masnachol o 100% yn dderbyniol, ac y byddai cymhareb nes at 50/50 preswyl/masnachol yn fwy priodol. Teimlodd Mr Mead bod y cydbwysedd cywir bellach wedi ei gyflawni. Y newid mwyaf yn y cynnig, o

gymharu â’r cynnig a wrthodwyd, yw bod 22 allan o’r 24 annedd yn fforddiadwy. Mae hyn yn unol â'r polisi o beidio â chynnig datblygiadau sy’n cynnwys 100% o dai fforddiadwy. Mae perygl llifogydd wedi cael sylw a’r bwriad yw codi wal fwnd i amddiffyn rhag llifogydd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn hapus efo hyn.

Gofynnodd y Cyng. Meirick Lloyd Davies a oedd y 'bwnd’ arfaethedig wedi ei awgrymu gan Gyfoeth Naturiol Cymru gan nad yw byndiau blaenorol yn y sir wedi bod yn ddigonol.

Dywedodd Mr Mead fod y cynnig hwn ar gyfer 'wal' yn hytrach na 'bwnd'. Eglurwyd y byddai codi lefelau'r lloriau ar y safle yn annerbyniol oherwydd bod y tai cyfagos yn fyngalos.

**Cynigion:**

Cynigiodd y Cyng. McCarroll y dylid RHOI caniatâd yn unol ag argymhelliad y Swyddog. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Jeanette Chamberlain-Jones.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 24
YMATAL - 0
GWRTHOD - 1

**FELLY RHODDWYD CANIATÂD**

**Eitem: 11** **Tudalen: 145**

**Cais Rhif:** 46/2014/0436/PS

**Lleoliad:** **Tir ar ochr ogleddol Bryn Gobaith, Bryn Gobaith, Llanelwy**

**Disgrifiad:** Dileu Amod rhif 15 caniatâd cynllunio amlinellol rhif 46/2013/0802 yn gofyn am gynllun o welliannau ar gyffordd Mount Road/Bryn Gobaith ac arafu traffig ar Mount Road a Bryn Gobaith.

Cyflwynwyd y llythyrau ychwanegol canlynol a oedd yn cynnwys sylwadau:

**SYLWADAU HWYR**
Ymgyngoreion:

Dŵr Cymru
Mae angen ailadrodd yr angen i gynnwys amodau perthnasol a nodiadau ymgynghorol (cyfeirir atynt yn adroddiad y Swyddog).

**Y drafodaeth gyffredinol:**
Ni chafwyd unrhyw drafodaeth ar yr eitem hon.

**Cynigion:**
Cynigiodd y Cyng. Dewi Owen bod y cais hwn yn cael ei ohirio tan y bydd ymweliad safle wedi ei gynnal. Eiliwyd y cynnig hwn gan y Cyng. Meirick Lloyd Davies.

**PLEIDLAIS:**
Drwy godi dwylo cafodd yr eitem hon ei gohirio.
GOHIRIO - 24
YMATAL - 1

**Eitem: 12** **Tudalen: 153**

**Cais Rhif:** 46/2013/1222/PF

**Lleoliad:** **Tir ym Mhlanhigfa Bronwylfa, Bryn Gobaith, Llanelwy**

**Disgrifiad:** Codi 15 annedd ar wahân a chreu mynedfa newydd i gerbydau ar 1.44 hectar o dir.

Mewnosod sylwadau hwyr.

**Y drafodaeth gyffredinol:**
Ni chafwyd unrhyw drafodaeth ar yr eitem hon.

**Cynnig:**
Cynigiodd y Cyng. Dewi Owen bod y cais hwn yn cael ei ohirio tan y bydd ymweliad safle wedi ei gynnal oherwydd materion diogelwch y ffyrdd. Eiliwyd y cynnig hwn gan y Cyng. Meirick Lloyd Davies.

**PLEIDLAIS:**
Drwy godi dwylo cafodd yr eitem hon ei gohirio.
GOHIRIO - 23
YMATAL - 1

**Eitem: 13** **Tudalen: 169**

**Cais Rhif:** 47/2014/0577/PC

**Lleoliad:** **Tŷ Capel, Waen, Llanelwy**

**Disgrifiad:** Cadw estyniad ystafell wydr.

**Y drafodaeth gyffredinol:**
Esboniodd y Cyng. Barbara Smith fod y cais hwn wedi bod yn destun camau gorfodi. Er nad oedd hi'n hoffi ceisiadau cynllunio ôl-weithredol, mae'n well ganddi dderbyn cais ôl-weithredol na dim cais o gwbl.

**Cynigion:**

Cynigiodd y Cyng. McCarroll y dylid RHOI caniatâd yn unol ag argymhelliad y Swyddog. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Bill Cowie.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 24
YMATAL - 0
GWRTHOD - 1

**FELLY RHODDWYD CANIATÂD**

**Eitem: 14** **Tudalen: 177**

**Cais Rhif:** 47/2014/0579PC

**Lleoliad:** **Capel y Waen, Waen, Llanelwy**

**Disgrifiad:** Cadw mynedfa i gerbydau a grëwyd yn flaenorol a newidiadau i greu mynedfa newydd i'r anabl ac ardal barcio/droi

Cyflwynwyd yr wybodaeth ganlynol i'r Pwyllgor yn y taflenni hwyr:

**SYLWADAU HWYR**

Sylwadau o gefnogaeth gan:

Y Cyng. Bobby Feeley (Cefnogwr Pobl Hŷn ac Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol)
Pwysleisiodd werth y gwasanaeth gwirfoddol a ddarperir yn yr eiddo a chefnogodd y camau gweithredu i gael cyfaddawd i'r sefyllfa o ran mynediad a pharcio.

**Y drafodaeth gyffredinol:**
Unwaith eto esboniodd y Cyng. Barbara Smith fod y datblygiadau wedi bod yn destun camau gorfodi. Fodd bynnag, awgrymodd fod yr ymgeiswyr wedi gwneud ymdrech sylweddol o ran y manylion i wneud hwn yn gynnig llawer mwy diogel.

Esboniodd Mike Parker fod hwn wedi bod yn sefyllfa anodd, yn enwedig o ystyried mai cais ôl-weithredol ydyw. Roedd y trefniadau mynediad a grëwyd yn flaenorol yn beryglus ond credodd mai'r opsiwn gorau yw'r opsiwn sy'n cael ei gynnig yn y cais hwn.

Diolchodd y Cyng. Meirick Lloyd Davies i'r Swyddogion am eu gwaith caled gyda'r mater hwn gan ei fod wedi bod yn anodd.

**Cynigion:**

Cynigiodd y Cyng. Arwel Roberts y dylid CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Meirick Lloyd Davies.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 22
YMATAL - 1
GWRTHOD - 2

**FELLY RHODDWYD CANIATÂD**

**EITEM RHAGLEN RHIF 6**

## ADRODDIAD GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD

## BRIFF DATBLYGU BODELWYDDAN

Datganodd y Cyng. Alice Jones, yr Aelod Lleol, gysylltiad yn yr eitem hon gan ei bod yn berchen ar eiddo cyfagos ac yn Aelod o Grŵp Gweithredu Bodelwyddan. Roedd y Cyng. Jones wedi llenwi ffurflen Datgan Cysylltiad ac wedi cael gwybod cyn y cyfarfod gan y Swyddog Cyfreithiol nad oedd ei chysylltiad yn rhagfarnu.

Mae llythyr hwyr gyda sylwadau wedi dod i law gan Grŵp Gweithredu Bodelwyddan. Cylchredwyd y llythyr i'r Aelodau.

Cyflwynodd Angela Loftus yr eitem ac eglurodd fod y Brîff Datblygu wedi ei gynhyrchu i ychwanegu manylion i gefnogi Polisi BSC5 y Cynllun Datblygu Lleol. Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn yn dilyn ymgynghoriad llawn ar y fersiwn drafft. Mae'r adroddiad presennol yn dangos y newidiadau sydd wedi eu gwneud yn dilyn yr ymgynghoriad. Mae cais cynllunio amlinellol wedi ei dderbyn ar gyfer y safle ond nid yw'n cael unrhyw effaith ar yr adroddiad hwn.

Os caiff y briff ei gymeradwyo, byddai'n ystyriaeth gynllunio berthnasol.

Er budd yr Aelodau, amlinellodd Angela yr wybodaeth a gynhwysir yn y papurau gwahanol.

Cafwyd digwyddiad ymgysylltu â'r gymuned yn fuan yn y broses, a hwyluswyd gan "Planning for Real", a helpodd i lywio'r gwaith ar y briff drafft. Wedi hyn cyflwynwyd adroddiad ar y briff i Grŵp Llywio'r Cynllun Datblygu Lleol ac yna fe gyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Cynllunio yn gofyn am ganiatâd i gynnal ymgynghoriad. Cytunodd y Pwyllgor Cynllunio i gynnal ymgynghoriad deufis ar y briff. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 6 Mai achafwyd 107 o ymatebion.

Mae'r prif faterion yn ymwneud ag:

- effaith trafnidiaeth, gan gynnwys trafnidiaeth adeiladu
- ffordd gyswllt trwy'r datblygiad
- yr effaith ar yr ardal gadwraeth a'r Eglwys Farmor
- gofynion ar gyfer byfferau tirwedd o amgylch yr ymyl a thu ôl i Marble Church Grove
- perygl llifogydd a draenio
- lleoliad yr ysgol
- yr angen am gyflogaeth

Y prif newidiadau arfaethedig:

- Eglurhad o fynediad y safle (dim mynediad o flaen yr Eglwys Farmor, dim trafnidiaeth adeiladu drwy'r pentref nac ar hyd y ffordd o flaen yr Eglwys Farmor)
- Cyfeiriad ychwanegol at y ffordd gyswllt o gyffordd 26 a Sarn Lane
- Manteisio i'r eithaf ar fioamrywiaeth
- Cyfeiriad at yr AHNE

- Diwygiadau i’r prif gynllun i gynnwys byfferau tirwedd
- Nodi llwybr y ffordd gyswllt fel ffordd ddangosol
- Cynllun o’r estyniad i iard Eglwys y Santes Margaret
- Canllawiau dylunio ychwanegol i amddiffyn Eglwys y Santes Margaret
- Mwy o bwyslais ar lwybrau troed a llwybrau beicio
- Cyfeiriad ychwanegol at gartrefi am oes

Esboniodd y Cyng. Alice Jones mai pryder mwyaf y gymuned yw llwybr y ffordd gyswllt. Soniodd y Cyng. Jones am y ddau gynllun, un a oedd yn rhan o bapurau'r Pwyllgor ac un y cyfeirir ato fel y cynllun BE sy’n dangos llwybr gwahanol (mae’r cynllun BE wedi ei gylchredeg i'r Aelodau fel rhan o'r papurau hwyr yn y daflen las).

Dywedodd y Cyng. Jones bod Grŵp Aelodau Ardal Elwy wedi cael gwybod gan y datblygwyr nad ydynt yn bwriadu datblygu ffordd gyswllt fawr. Roedd hyn yn siom gan fod y grŵp ar ddeall bod hyn yn elfen allweddol o'r safle strategol allweddol. Dywedwyd wrthynt mai’r bwriad yn awr yw creu stryd droellog. Teimlwyd y byddai hyn yn rhannu’r safle strategol allweddol yn ddau. Nid dyma’r hyn a ragwelwyd. Ni ymgynghorwyd â’r Grŵp ar y cynllun cyfredol. Mae Grŵp Llywio’r Cynllun Datblygu Lleol wedi dewis y cynllun gwreiddiol, sy’n dangos ffordd ar hyd ffin y safle, fel yr opsiwn a ffafrir. Dywedodd y Cyng. Jones na fyddai tref Bodelwyddan yn dref unedig a chanddi gymuned unedig petai ffordd yn cael ei hadeiladu ar draws ei chanol.

Dywedodd y Cyng. Jones hefyd bod yr arolygydd wedi edrych ar hyfywedd yn ystod yr archwiliad o'r Cynllun Datblygu Lleol a’i fod wedi gofyn am ddatganiad llawn o sefyllfa ariannol Barwoods ar gyfer y safle strategol allweddol. Dangosodd y datganiad bod y datblygwyr wedi neilltuo £30 miliwn ar gyfer y safle. O ganlyniad i’r sefyllfa ariannol gref hon barnodd yr arolygodd bod y Cynllun Datblygu Lleol yn gynllun cadarn. Felly dyma pam y mae’r Cyng. Jones yn teimlo nad oes modd ystyried hyfywedd yn broblem ar hyn o bryd.

Eglurodd Angela Loftus y ffaith bod y cynllun a ddosbarthwyd wedi ei gymryd o adroddiad MMDA Bodelwyddan a gynhyrchwyd gan y BE Group/Faber Maunsell yn 2007. Crëwyd y cynllun ar yr un adeg yr oedd y Cyngor yn edrych ar nifer o wahanol opsiynau ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol. Roedd y Cyngor yn edrych ar wahanol ardaloedd gyda’r bwriad o ddyrannu safle strategol allweddol. Mae’r cynllun a gylchredwyd yn rhan o opsiwn a awgrymwyd a fyddai hefyd yn galluogi datblygu darn arall o dir i’r gorllewin o Fodelwyddan i greu parc loriau HGV a chanolfan gynadledda ac ati. Mae’r cynllun yn ddogfen gefndir hanesyddol ac ni ddatblygwyd y cynllun fel rhan o archwiliad y Cynllun Datblygu Lleol, ond fe ffurfiodd ran o’r “llyfrgell” o wybodaeth gefndirol. Dangosodd ymgynghoriad a gynhaliwyd gan y Cyngor yn 2008, cyn archwilio’r Cynllun Datblygu Lleol, y potensial ar gyfer datblygiad gyda ffordd gyswllt drwyddo (nid ar hyd ffin y safle). Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar yr opsiwn yma. Nid oedd cynllun adroddiad y BE Group yn rhan o'r ymgynghoriad hwn, ond roedd yn rhan o’r dogfennau a archwiliwyd. Roedd pob dogfen a oedd wedi ffurfio tystiolaeth gefndir i lywio datblygiad y Cynllun Datblygu Lleol a’r drafodaeth ar y safle wedi ei chyflwyno ynghyd â'r dogfennau a oedd yn ystyried safleoedd strategol allweddol posibl yn y Rhyl a Llanelwy.

Drwy gydol cyfnod yr ymgynghoriad dangoswyd llwybr y ffordd yn mynd drwy’r datblygiad, nid ar hyd ffin y safle. Yn 2009, edrychodd Gweithgor y Cynllun Datblygu Lleol ar wahanol opsiynau a oedd yn dangos y ffordd yn mynd drwy'r safle ac nid o'i gwmpas. Cyflwynwyd Briff Datblygu drafft i Arolygydd y Cynllun Datblygu Lleol fel rhan o'r llyfrgell arholi. Ystyriwyd hyn gan y Gweithgor ac roedd yn cynnwys prif gynllun gyda llinell yn dangos ffordd drwy'r safle, nid o'i gwmpas.

Roedd y Briff Datblygu drafft a ymgynghorwyd arno hefyd yn nodi ffordd ddangosol drwy’r safle, nid o'i amgylch, a chytunodd y Grŵp Llywio a'r Pwyllgor Cynllunio i ymgynghori ar yr opsiwn hwn. Fodd bynnag, o’r ymatebion a dderbyniwyd, teimlwyd bod angen eglurhad pellach yn y brîff i ddangos y ffordd gyswllt yn gliriach. Yn ogystal, yn y cyfarfod cyhoeddus a drefnwyd gan Grŵp Gweithredu Datblygu Bodelwyddan, cytunwyd ar gynnig bod angen ffordd gyswllt wedi ei chreu’n briodol o gylchfan parc busnes Llanelwy drwy'r safle i Sarn Lane. Adlewyrchwyd hyn yn y rhan fwyaf o'r sylwadau a dderbyniwyd gan y cyhoedd. Ni dderbyniwyd unrhyw sylw a oedd yn crybwyll ffordd osgoi o amgylch y safle na ffordd ffiniol. Os yw ffordd yn cael ei hadeiladu o gwmpas y safle yna byddai dal angen ffordd arall trwy'r safle er dibenion mynediad. Bydd datblygiad cyflogaeth a phreswyl ar y safle a byddai ffordd drwy'r canol yn darparu mynediad i’r ddau. Byddai llwybr masnachol hyfyw i fysiau hefyd yn cael ei greu ar hyd y ffordd. Byddai cyfle hefyd i ddarparu llwybr cerdded/beicio o gwmpas y safle. Fodd bynnag, byddai’n anoddach darparu hyn os oes ffordd osgoi o amgylch y safle.

Byddai union lwybr y ffordd yn rhywbeth a fyddai'n cael ei drafod fel rhan o gais cynllunio manwl. Yn ystod cam y Briff Datblygu fodd bynnag y cwbl sydd angen ei nodi yw llwybr dangosol rhwng Cyffordd 26 a Sarn Lane.

Eglurodd Mike Parker (Priffyrdd) y byddai'r ffordd gyswllt yn treiddio i mewn i’r datblygiad ac yn darparu mynediad da o'r A55 a Sarn Lane. Dywedodd Mr Parker hefyd y byddai llwybr i gerddwyr/beicwyr yn fwy addas o amgylch y tu allan i'r safle.

Teimlodd y Cyng. Meirick Lloyd Davies bod y Cyng. Jones wedi amlinellu'r sefyllfa’n dda. Roedd Bryn Cwnin (y Rhyl) yn ffordd gyswllt na weithiodd yn dda. Byddai ffordd o amgylch y safle yn caniatáu i ambiwlansiau a cherbydau brys eraill fynd o gwmpas y safle yn gynt. Roedd yn synnu ac yn siomedig bod priffyrdd yn cefnogi opsiwn y ffordd gyswllt. Yn y cyfarfod agored y bu iddo fynychu roedd yn gwbl glir iddo fod ar y cyhoedd eisiau ffordd a oedd yn mynd o amgylch y safle. Teimlodd y byddai ffordd lai drwy'r safle yn y pen draw yn llawn ponciau arafu. Anogodd yr Aelodau i beidio â gwrando ar y Swyddogion.

Dywedodd Graham Boase mai brîff datblygu dangosol yw hwn, nid cais cynllunio manwl. Y cysyniad cyffredinol yw bod angen ffordd drwy'r safle fel rhan o'r safle. Ei argymhelliad yw na ddylid newid paragraff 6.29 ar dudalen 215. Byddai modd trafod y manylion ar ôl i’r cais cynllunio gael ei gyflwyno. Fodd bynnag, petai’n rhaid iddo ef fel cynllunydd ddewis yr opsiwn orau, yna byddai'n rhaid iddo ddweud mai’r ffordd gyswllt drwy'r safle yw’r ateb dylunio gorau ac nid ffordd ar hyd ffin y safle

Dywedodd y Cyng. Arwel Roberts bod y Cyng. Smith, yng nghyfarfod y Grŵp Llywio, wedi cynnig y dylai'r ffordd fynd "o amgylch" y safle ac nid “drwyddo”. Teimlodd bod cynnig y Cyng. Jones yn gynnig teg.

Eglurodd Graham Boase fod tudalen 1 yn cynnwys sylwadau hwyr gan Grŵp Gweithredu Datblygiad Bodelwyddan; maent yn gofyn am ffordd briodol "trwy’r" safle. Dyma’n union sy'n cael ei gynnig yn y Brîff Datblygu. Dylid gadael y manylion tan y bydd y cais cynllunio manwl wedi dod i law. Mae geiriad y Brîff Datblygu yn briodol i osod y cysyniadau cyffredinol.

Teimlodd y Cyng. J. Chamberlain-Jones bod yn rhaid iddi anghytuno â Graham Boase. Byddai ffordd gyswllt yn achosi problemau tebyg i'r rhai a brofir gan drigolion Ffordd Bryn Cwnin. Mae cael mesurau lleddfu trafnidiaeth ar y ffordd hon wedi bod yn gostus ac wedi cymryd cryn amser i’w datrys. Teimlodd y Cyng. Chamberlain-Jones mai rŵan yw'r amser i wneud newidiadau er mwyn sicrhau nad yw'r ffordd yn cael ei hadeiladu drwy ganol y safle.

Cytunodd y Cyng. Mervyn Parry â’r Cyng. Jones. Teimlodd y dylai'r ffordd allu gwrthsefyll prawf amser gan fod ffyrdd yn mynd yn brysurach ac na fyddai ar bawb eisiau gyrru drwy'r safle. Teimlodd y byddai'r ffordd o amgylch y safle o fudd i'r ardal ehangach yn hytrach na dim ond y safle datblygu.

Dywedodd y Cyng. Rhys Hughes pe bai'n o’n ddatblygwr, na fyddai o'n creu ffordd o amgylch y safle oherwydd y byddai hynny’n atal datblygu’r tir ar yr ochr arall yn y dyfodol.

Teimlodd Graham Boase fod newid y Briff Datblygu fel y cynigir yn cael gwared ar yr opsiwn o ffordd gyswllt, ond bwriad y Briff Datblygu yw ceisio cadw'r opsiynau ar agor. Yn syml, fe ddylai’r ffordd fynd o un pwynt i'r llall drwy'r safle. Byddai opsiwn y Cyng. Jones yn golygu ail-ddylunio'r briff, gan ymrwymo'r Cyngor i un opsiwn yn unig.

Roedd y Cyng. Penlington mynd i awgrymu tynnu’r gair ‘cyswllt’ allan o'r Briff.

Eglurodd y Cyng. Jones fod hwn yn ddatblygiad enfawr a bod ganddi waith i'w wneud i amddiffyn y safle hwn fel yr Aelod Lleol. Mae adroddiad BE Group/Faber Maunsell yn rhoi darlun ehangach ar sut y bydd y safle hwn yn edrych yn yr ardal ehangach ac argymhellodd bod yr holl Aelodau yn darllen yr adroddiad hwn. Byddai angen ffordd trwy’r safle ar gyfer y tai beth bynnag sy’n digwydd ond, drwy wneud y ffordd honno yn brif ffordd ar gyfer y safle byddai cymuned Bodelwyddan yn cael ei rhannu yn bum rhan gan ei wneud yn fwy rhanedig na chynhwysol.

Awgrymodd Gary Williams (Cyfreithiol) y dylai paragraff 6.29 nod fod "angen ffordd sy'n cysylltu’r ddau leoliad er mwyn sicrhau gweithrediad diogel ac effeithlon o'r rhwydwaith priffyrdd lleol a gwella mynediad i Ysbyty Glan Clwyd a lleddfu pwysau Cyffordd 27 o'r A55". Dywedodd y byddai peidio â nodi llinell ddangosol ar y map yn sicrhau na fyddai penderfyniad ymlaen llaw lle yn cael ei wneud o ran llwybr y ffordd ac y byddai penderfyniad yn cael ei wneud gan yr Aelodau a'r Swyddogion pan fydd yr holl asesiadau perthnasol wedi eu cyflwyno fel rhan o'r cais.

Fodd bynnag, dywedodd y Cyng. Jones fod ei chynnig, a gafodd ei eilio, yn gofyn am ychwanegu’r geiriau "ffordd ffin datblygiad" yn lle "ffordd gyswllt".

Eglurodd Garry Williams y bydd y gair "cyswllt" yn cael ei ddileu a'i ddisodli gan y gair "ffin datblygiad".

**Cynnig**
Cynigiodd y Cyng. Alice Jones y dylid diwygio’r brîff datblygu i gynnwys "ffordd ffin datblygiad" yn lle "ffordd gyswllt" ac i gael gwared ar linell y ffordd ar y map. Eiliwyd hyn gan y Cyng. Arwel Roberts. Mae angen diwygio'r briff fel nad yw’r gymuned ar y safle yn cael ei rhannu gan brif ffordd gyswllt, i sicrhau llwybr i gerbydau brys ac eraill deithio rhwng yr ysbyty a'r A55, ac oherwydd pryderon ynghylch effeithiau ffyrdd cyswllt eraill yn y Sir.

**Pleidlais dros y diwygiad:**
CYMERADWYO - 19
YMATAL - 1
GWRTHOD - 4

**FELLY DERBYNIWYD Y DIWYGIAD**

**Pleidlais dros yr argymhelliad ar gyfer y Briff Datblygu:**
CYMERADWYO - 18
YMATAL -1
GWRTHOD - 4

**FELLY MABWYSIADWYD Y BRÎFF DATBLYGU GYDA’R DIWYGIAD UCHOD**

EITEM RHAGLEN RHIF 7

## ADRODDIAD GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD

## GRŴP TASG A GORFFEN TAI FFORDDIADWY

Cyflwynwyd yr wybodaeth ganlynol i'r Pwyllgor yn y taflenni hwyr.

Diweddariad mewn perthynas â diweddaru paragraff 4.5, tudalen 344 o'r adroddiad -
Mae'r dyddiadau, yr amseroedd a'r lleoliadau canlynol ar gyfer pob un o'r 6 sesiwn wedi eu cadarnhau -

*Mae pob wedi ei drefnu ar gyfer 2 awr*

*Dydd Mawrth 16 Medi am 3.00 pm - Ystafell Gyfarfod 2, Ffordd Brighton, Y Rhyl*
*Dydd Mawrth 23 Medi am 1.30 pm - Ystafell Gynhadledd 3, Neuadd y Sir, Rhuthun*
*Dydd Iau, 9 Hydref am 2.30pm - Ystafell Gyfarfod 1, Caledfryn, Dinbych*
*Dydd Gwener 24 Hydref am 1.30 pm - Ystafell Gynhadledd 3, Neuadd y Sir, Rhuthun*
*Dydd Mawrth 4 Tachwedd, 3.00pm - Ystafell Gynadledda 3, Neuadd y Sir, Rhuthun.*
*Dydd Gwener, 28 Tachwedd am 1.00pm - Ystafell Gynadledda 3, Neuadd y Sir, Rhuthun.*

Enwebodd y Cadeirydd y Cyng. Rhys Hughes fel cynrychiolydd. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Arwel Roberts.
Cynigwyd ac eiliwyd y Cyng. Peter Owen fel cynrychiolydd.

Awgrymwyd y dylid enwebu dau aelod wrth gefn rhag ofn nad yw'r dyddiadau sydd wedi eu trefnu'n gyfleus i'r prif enwebeion.

Enwebodd y Cyng. Rhys Hughes y Cyng. Stuart Davies fel aelod wrth gefn.
Enwebwyd y Cyng. Joan Butterfield gan y Cyng. J. Chamberlain Jones

**EITEM RHAGLEN RHIF 8**

## ADRODDIAD GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD

## APÊL NEUADD LLANBEDR

Esboniodd Ian Weaver y bydd gwrandawiad anffurfiol yn cael ei gynnal a bod yr adroddiad hwn yn ceisio ffurfioli cynrychiolaeth dau Aelod yn y gwrandawiad hwnnw. Yr Aelodau a gynigiodd ac eiliodd y gwrthodiad oedd y Cyng. Huw Williams a'r Cyng. Huw Hilditch-Roberts. Mae Ymgynghorydd Cynllunio eisoes wedi bod yn ymwneud ar yr apêl hon oherwydd y dyddiadau dan sylw.

**Cynnig**
Cynigiwyd y dylai’r Cyng. Huw Williams a’r Cyng. Huw Hilditch-Roberts gynrychioli'r Cyngor a bod Ymgynghorydd Cynllunio hefyd yn rhan o’r apêl.

**EITEM RHAGLEN RHIF  9**

## MENTER TREFTADAETH DINBYCH

Rhoddodd Phil Ebbrell gyflwyniad byr ynghylch y gwaith y Fenter Treftadaeth Treflun yn Ninbych.

Canmolodd y Pwyllgor yr holl Swyddogion a oedd wedi bod yn rhan o'r cynllun am y canlyniadau rhagorol maent wedi eu cyflawni.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.45 p.m.